Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn,
Pontprenllwyd,
Penderyn,
Aberdare,
Rhondda Cynon Taf
CF44 9JW
☏ 01685 811259
http://www.penderynpri.cymru/
admin@penderynprimary.rctcbc.cymru
Be All That You Can!

Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn,
Pontprenllwyd,
Penderyn,
Aberdâr,
Rhondda Cynon Taf
CF44 9JW
☏01685 811259
http://www.penderynpri.cymru/
admin@penderynprimary.rctcbc.cymru
Byddwch Bopeth Gallwch Fod!

22/10/26

Dear Parent / Guardian,

School Photographs – please order by 6/11/26.

Autumn Disco: Thanks for the support and the hard work of the PTFA and staff.

Please remember:

- **Breakfast Club**: Children who have already registered do not have to re-register. Opening times are between 8:15 – 8:30am.
- **Please remember school starts at 9am.** A member of staff will be by the bus lane gate from 8:45am to 9am. You are welcome to drop your child off here but not to park. The main front door will be open between 8:50 – 9am.
- **School ends at 3:30pm.** If you are parking in the bus lane please be prompt leaving to avoid congestion.
- **Attendance at school** If your child is away from school please contact the office. (telephone or email above). Please see the attendance matters document on the website. **Please do not inform the teachers through Class Dojo – they are busy teaching. If we're not informed your child will be registered as absent without permission and may be referred to the Attendance and Wellbeing Officer.**

- **Fruit** will be sold during the morning break. (40p per item).

- **Toast** will be sold on a Wednesday morning thanks to the Parent, Teacher & Friends of the school. (40p for toast and a drink).

- **School Uniform:** We have a bank of good quality school uniform here. If you need any school uniform please contact the office. We'll gladly accept donations as children outgrow their uniform or moving on to a new school.

- **School clubs: For children in Year 3 – 6 from 3:30 – 4:30pm:**

  Wednesday – Urdd Club – children need to be members of the Urdd to attend.

  Thursday – Sports Club.

  If you have additional requirements the Cylch Meithrin at Penderyn Community Centre hold after school clubs.

- **School buses**: If you're entitled to the provision please take advantage to reduce congestion at school.

Parking:
Please be considerate to pedestrians and be aware of where you park near the school or any bus stop. School gates are locked at peak times to reduce the risk from traffic. Please do not park in the staff car park at any time (this includes Breakfast Club provision).

Where possible please drop your child off in the school bus lane in the morning and they can walk directly to school up the designated walkway. However, to avoid congestion please only use the bus lane in the morning as a drop off point. In the afternoon please be prompt leaving the bus lane to avoid obstructing the buses.

Please do not park on the zig-zags or the distillery car park (this is private ground).

If you require further information please contact the school.

School diary / Dyddiadur Ysgol:

School Closed for Children – Staff Training	**23/10/26**	Ysgol ar gau I blant – Hyfforddiant Staff
Autumn Holidays	**24/10 – 1/11/26**	Gwyliau'r Hydref
Miss Addiscott & Mrs Jones AstroCymru activity	**2/1126**	Miss Addiscott & Mrs Jones gweithgaredd AstroCymru
Fluoride dentist visit for nursery to year 2.	**6/11/26**	Ymweliad deintydd Fflworid I blant Meithrin I flwyddyn 2.
Flu innoculation day	**9/1126**	Diwrnod imiwneiddio ffliw
Children in Need Day	**13/11/26**	Diwrnod Plant Mewn Angen
Christmas Fete	**27/11/26**	Ffair Nadolig
Christmas Holidays	**19/12/26 – 3/1/27**	Gwyliau Nadolig
School Closed for Children – Staff Training	**4/1/27**	Ysgol ar gau I blant – Hyfforddiant Staff
Spring Half Term Holidays	**6/2/27 – 14/2/27**	Gwyliau Hanner Tymor Y Gwanwyn
Easter Holidays	**20/3/27 – 4/4/27**	Gwyliau Pasg
Llain Residential visit	**4/5/27 – 7/5/27**	Ymweliad Preswyl Llain
Summer Half Term Holidays	**29/5/27 – 6/6/27**	Gwyliau Hanner Tymor yr Haf
Start of Summer Holidays	**21/7/27**	Dechrau Gwyliau Haf

*Details will follow on specific activities.

*Manylion i ddilyn.

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Lluniau Ysgol: os ydych yn archebu gwnewch hynny erbyn 6/11/26.

Disgo Ysgol: Diolch am eich cefnogaeth a gwaith da y CRhaA a'r staff.

Cofiwch:
- Clwb Brecwast: Nid oes angen i blant sydd eisoes wedi cofrestru ail-gofrestru. Yr amseroedd agor yw rhwng 8:15 ac 8:30yb.
- Cofiwch fod yr ysgol yn dechrau am 9yb. Bydd aelod o staff wrth y giât ger y lôn fysiau rhwng 8:45 a 9yb. Mae croeso i chi ollwng eich plentyn yma, ond ni chaniateir parcio. Bydd y brif ddrws blaen ar agor rhwng 8:50 a 9yb.
- Mae'r ysgol yn gorffen am 3:30yp. Os ydych chi'n parcio yn y lôn fysiau, cofiwch adael yn brydlon er mwyn osgoi tagfeydd.
- Presenoldeb yn yr ysgol: Os yw eich plentyn i ffwrdd o'r ysgol, cysylltwch â'r swyddfa (drwy'r ffôn neu'r e-bost uchod). Cyfeiriwch at y ddogfen 'materion presenoldeb' ar y wefan. Peidiwch â hysbysu'r athrawon drwy Class Dojo – maent yn brysur yn dysgu. Os na chawn wybod, bydd eich plentyn yn cael ei gofnodi fel un sy'n absennol heb ganiatâd, ac efallai y caiff ei gyfeirio at y Swyddog Presenoldeb a Lles.

-Bydd **ffrwythau** ar werth yn ystod egwyl y bore (40c yr eitem).

-Bydd **tost** ar werth fore Mercher, diolch i'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol (40c am dost a diod).

-**Gwisg Ysgol**: Mae gennym stoc o wisg ysgol o ansawdd da yma. Os oes angen gwisg ysgol arnoch, cysylltwch â'r swyddfa. Byddwn yn hapus i dderbyn rhoddion pan fydd plant yn tyfu allan o'u gwisg neu'n symud i ysgol newydd.

Clybiau ysgol: Ar gyfer plant ym Mlwyddyn 3 i 6, rhwng 3:30 a 4:30yp:

Dydd Mercher – Clwb yr Urdd – rhaid i blant fod yn aelodau o'r Urdd i fynychu.

Dydd Iau – Clwb Chwaraeon.

Os oes gennych anghenion ychwanegol, mae'r Cylch Meithrin yng Nghanolfan Gymunedol Penderyn yn cynnal clybiau ar ôl ysgol.

Bysiau ysgol: Os oes gennych hawl i'r ddarpariaeth hon, manteisiwch arni i leihau tagfeydd wrth yr ysgol.

Parcio:
Byddwch yn ystyriol o gerddwyr a byddwch yn ymwybodol o ble rydych chi'n parcio ger yr ysgol neu unrhyw arhosfan bws.
Mae giatiau'r ysgol yn cael eu cloi ar adegau prysur i leihau'r risg sy'n deillio o draffig. Peidiwch â pharcio ym maes parcio'r staff ar unrhyw adeg (mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth Clwb Brecwast).

Lle bo modd, gollyngwch eich plentyn yn y lôn fysiau ysgol yn y bore; gallant wedyn gerdded yn uniongyrchol i'r ysgol ar hyd y llwybr cerdded dynodedig. Fodd bynnag, er mwyn osgoi tagfeydd, defnyddiwch y lôn fysiau yn y bore fel man gollwng yn unig. Yn y prynhawn, byddwch yn brydlon wrth adael y lôn fysiau er mwyn osgoi rhwystro'r bysiau.

Peidiwch â pharcio ar y llinellau igam-ogam na ym maes parcio'r ddistyllfa (tir preifat yw hwn).

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r ysgol.